

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cynllun Datblygu Lleol (2016-2031)

PAPURAU CEFNDIR
LLETMAU GLAS

Mehefin 2017



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Miss J Jones
Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad/
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triong! Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu dynodiadau cyfredol lletemau glas yng nghynllun mabwysiedig *Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021* ac mae'n ystyried yr angen i'w parhau yn y cynllun o'r newydd sy'n ymddangos sef *Cynllun Datblygu Lleol Cyntaf Newydd ar gyfer Merthyr Tudful 2016 – 2031*.
2. Ceir pedair lletem las yn y CDLI mabwysiedig, a ddangosir ar Gynllun 2. Cafodd y rhain eu dynodi er mwyn atal cyfuniad rhwng aneddiadau a'r lleoliadau canlynol:
 - Heolgerrig/Twyncarmel
 - Abercannaid/Pentrebach/Troedyrhiw
 - Troedyrhiw/Aber-fan
 - Trelewis/Nelson
3. Y casgliad yw **nad** oes angen i'r *Cynllun Datblygu Lleol Cyntaf Newydd ar gyfer Merthyr Tudful 2016-2031* ddibynnu ar letem las i atal cyfuniad.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau ceisiadau cyn-adnau a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) er mwyn llywio'r Strategaeth a Ffeirir o'r Cynllun Datblygu Lleol Cyntaf Newydd ar gyfer Merthyr Tudful (CDLI) 2016-2031.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu rôl ac effeithiolrwydd dynodiadau lletemau glas a wnaed drwy Bolisi AS5 CDLI mabwysiedig Merthyr Tudful 2006-2021 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, 2011).
- 1.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Llywodraeth Cymru, 2016), yn datgan y gall lletem las gael ei dynodi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) yn eu CDLlau fel modd o ddiogelu tir agored o gwmpas trefi a dinasoedd. Maen nhw'n fecanwaith o ran cyfyngiant trefol lleol gyda'r bwriad o gyfyngu datblygiad adeiledig rhag lledaenu y tu hwnt i ffiniau aneddiadau dynodedig a safleoedd a ddyrannwyd.

2 Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

- 2.1 Mae Pennod 4 *Polisi Cynllunio Cymru (PCC)* Rhifyn 9 (Llywodraeth Cymru, 2016), sy'n berthnasol i Gynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd, yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy - sydd â'r nod o "alluogi'r holl bobl ledled y byd i ddiwallu eu prif anghenion a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb gyfaddawdu ar ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol" ac mae ei ystyr yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn "y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy, sydd wedi ei anelu at gyflawni nodau llesiant."
- 2.2 Ar gyfer cymunedau, mae hyn yn golygu y dylai CDLlau "Gyfrannu at ddiogelu a, ble y bo'n bosibl, wella iechyd a llesiant pobl" (paragraff 4.4.3) a chydabod cryfderau cymunedau trefol, fel cartref i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth, drwy sicrhau eu bod yn dyfod yn lleoedd mwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt (paragraff 4.6.1).
- 2.3 O ran aneddiadau, mae hyn yn golygu y dylai CDLlau nid yn unig ystyried anghenion ardaloedd trefol a gwledig presennol ond hefyd y berthynas yn y dyfodol rhwng aneddiadau trefol a'r gefnwlad wledig (paragraff 4.7.1). Yn ychwanegol, dylai CDLlau isafu faint o dir a gymerir a lledaenu trefol, drwy ffafrio ailddefnyddio tir ac adeiladau priodol ar fan a ddatblygwyd yn flaenorol ar safleoedd meysydd glas ble bynnag y bo'n bosibl (paragraff 4.4.3).
- 2.4 Ymhellach mae PCC yn pwysleisio pwysigrwydd diogelu tir agored o gwmpas trefi a dinasoedd. Mae'n datgan fod angen i ACLlau ystyried gwneud dynodiadau lleol **nad ydynt yn barhaol** fel lletemau glas yn eu CDLlau.

2.5 Mae Paragraff 4.8.2 y PCC yn datgan y gall lletem las:

- Ddarparu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad agored;
- Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden awyr agored;
- Cynnal diddordebau tirlun/ bywyd gwyllt;
- Cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a dibenion perthnasol;
- Gwella tir diffaith; a
- Darparu dalfa garbon a helpu i eirioli effeithiau ynysoedd gwres trefol.

2.6 Ymhellach mae Paragraff 4.8.3 yn datgan ei fod yn **bosibl** y gellir cyfiawnhau lletem las ble y mae'n ofynnol bod tir yn gwasanaethu'r un diben â Llain Las mwy parhaol, sydd i fod i:

- Atal y cyfuniad o **drefi mawr a dinasoedd gydag aneddiadau eraill**;
- Rheoli ffurf drefol drwy ehangu rheoledig ar gyfer ardaloedd trefol;
- Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwlad rhag llechfeddiant;
- Diogelu lleoliad ardal drefol a
- Chynorthwyo ag adfywio trefol drwy annog ailgylchu tir diffaith a thir trefol arall.


2.7 Mae PCC yn datgan ymhellach y dylai lletem las gynnwys **tir nad yw ddim ond yn gwbl angenrheidiol i gyflawni dibenion Polisi Lletem Las**, sy'n gofyn cael diogelwch ychwanegol. Dylid rhoi ystyriaeth i ffactorau fel pa mor agored, topograffeg a natur yr ymylon trefol a dylai nodweddion amlwg ffisegol gael eu defnyddio i sefydlu ffiniau amddiffynnol (Paragraffau 4.8.11-12).

2.8 Yn ychwanegol **dylai lletem las ond gael ei chynnal a'i chadw pan ellir arddangos na all polisiâu cynllunio a datblygu arferol ddarparu'r diogelu angenrheidiol** (paragraff 4.8.11) **a'i hadolygu fel rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol** (paragraff 4.8.1).

3 Cyd-destun Polisi Isranbarthol (Traws Ffiniol)

3.1 Mae CDLI Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021 (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2010) yn cynnwys Polisiâu Penodol i'r Ardal. Mae *Polisiâu SI1.1 - SI1.24* sy'n berthnasol i *Hunaniaeth Aneddiad*, yn dynodi 24 lletem las ledled tair Ardal Strategaeth, a gynhwysir i gynnal gwagleoedd agored rhwng ac oddi fewn i ardaloedd trefol ac aneddiadau er mwyn atal cyfuniad. Oddi fewn i letem las ddynodedig y bwriad yw ceisio peidio derbyn unrhyw gynnig datblygiad na fyddai'n cynnal y natur agored, nad yw'n cael ei ystyried yn ffatriol i'r cymeriad presennol nac yn gwella cymeriad y lletem las. Oddi fewn i Ardal Strategaeth 2: Mae Coridor Cysylltiadau Gogleddol (CCG) Polisi *SL1.11* i'r gorllewin o Nelson wedi ei ddynodi i atal y cyfuniad rhwng Nelson yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Mynwent y Crynwyr yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fel y dangosir ar Gynllun 1. Ar adeg y dynodi roedd yr ardal o dan gryn bwysau preswyl a chyflogaeth fel yr ystyriwyd y lletem las i fod yn bwysig nid yn unig fel ardal agored o dir i gynnal dibenion gwrth-gyfuniad, ond hefyd am ansawdd ei dirlun.

Cynllun 1: SL1.11 I'r Gorllewin o Nelson – (Caerphilly County Borough Council, 2008)



- 3.2 Roedd CDLI Rhondda Cynon Taf hyd at 2021 (Rhondda Cynon Taf County Borough Council, 2011) yn ei ystyried yn angenrheidiol i ddarparu diogelwch ychwanegol i ardaloedd o dir agored pwysig a bregus drwy gyfyngu datblygiad ar yr ymylon trefol a rhwng aneddiadau . Mae'n cynnwys Polisiâu Strategaeth Ardal, Polisiâu NSA 24 a Pholisi SSA 22- Lletem lass, sy'n dynodi 15 lletem las i atal cyfuniad rhwng ac oddi fewn i aneddiadau , diogelu tir bregus ger yr ymyl trefol o geisiadau datblygu hapfasnachol, atal llechfeddiant i mewn i gefn gwlad a cholli cynyddrannol o wagleoedd gwyrdd pwysig ac osgoi'r effaith andwyol ar amaethyddiaeth, y tirlun a gwerth amwynder y tir. Does dim ffin ddynodedig ar gyfer lletem las yn ardal CBSMT.
- 3.3. Cafodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB) ei ddynodi fel tirlun a ddiogelir yn 1957 ar sail ei brydferthwch naturiol a'r cyfleoedd a gaiff eu cynnig yno ar gyfer hamdden awyr agored. Felly nid yw CDLI PCBB 2007-2022 (Brecon Beacons National Park Authority, 2013) yn cynnwys unrhyw bolisiâu lletem las ond yn lle hynny mae'n rheoli datblygiad drwy ddsbarthu gofodol o ran twf, a osodwyd drwy **Hierarchaeth Aneddiad** cryf.
- 3.4 Mae hyn yn cynnwys Lefel 1 – Prif Aneddiadau Allweddol , Lefel 2 Aneddiadau Allweddol, Lefel 3 Aneddiadau , Lefel 4 Aneddiadau Twf Cyfyngedig a Lefel 5 Cefn Gwlad. Mae'r ddwy lefel gyntaf yn cynnwys aneddiadau sy'n gweithredu fel canolfannau strategol fel y'u gosodir gan Gynllun Gofodol Cymru ac a

ddynodwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APC) (Welsh Government, 2008) sy'n gyson â chapasiti amgylcheddol y dref.

Oddi fewn i Lefelau 3 a 4 mae datblygiad wedi ei gyfyngu i'r hyn a brofir yn hanfodol yn unol â Pholisi cynllunio cenedlaethol. Caiff ardaloedd Lefel 5 a ddynodwyd fel *Aneddiadau Cefn Gwlad* eu hasesu i fod yn lleoliadau anghynnaladwy ar gyfer datblygiad, heb y capasiti i wneud lle i dwf, ble y ceir y dybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad. Oddi fewn i bob aneddiad, caiff datblygiad Lefel ei reoli drwy ddatblygiad priodol penodol a pholisïau eirioli effaith, wedi eu tanategu gan *Bolisïau Strategol 1: Datblygiad Priodol yn y Parc Cenedlaethol, SP3 Diogelu Amgylcheddol a thrwy gymhwyso SP10: Dosbarthu Datblygiad yn Gynaliadwy*.

4 Cyd-destun polisi lleol: Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006 - 2021

- 4.1 Er mwyn atal y cyfuniad rhwng cymunedau ac aneddiadau a ddynodwyd o dan bwysau datblygiad, cafodd *Polisi AS5: Lletem las*, ei gynnwys yn y CDLI mabwysiedig, fel y dangosir isod:

Polisi AS5: Lletem las

Er mwyn atal cyfuniad rhwng aneddiadau, dynodwyd Lletem las yn y lleoliadau canlynol:


***Heolgerrig/Twyncarmel
Abercannaid/Pentrebach/Troedyrhiw
Troedyrhiw/Aber-fan
Trelewis/Nelson***

Caiff ehangder y rhain ei ddangos ar Fap Cynigion CDLI ac ni chaiff datblygiad sy'n niweidiol i natur agored y tir ei ganiatau ac eithrio mewn amgylchiadau cwbl eithriadol.

- 4.2 Mae Cynllun 2 yn dangos dosbarthiad y lletemau glas presennol hyn oddi fewn i ardal CBSMT, fel y dangoswyd ar fap cynigion y CDLI mabwysiedig. Mae Cynlluniau 3-6 yn dangos mwy o fanylder o bob ardal.
- 4.3 Y cyfiawnhad i'r Polisi a ddarparwyd yw:
- cynnal hunaniaeth amlwg cymunedau ar wahân ;
 - cynnal gwagle agored gwerthfawr rhwng aneddiadau a
 - chydweddu'r swyddogaeth a ddarperir gan ffiniau aneddiadau .

Darparwyd esboniad a chyfiawnhad pellach ar gyfer cynhwysiant o'r Polisi gan y *Papur Cefndir - Lletem las* (Merthyr Tydfil County Borough Council, 2009) paratowyd i gefnogi'r CDLI mabwysiedig.

Cynllun 2: Polisi AS5 – Lletem las Sy'n Bodoli – CDLI Merthyr Tudful 2006-2021



5 Proses Adolygu CDLI

- 5.1 O dan ddarpariaethau Deddf Prynu Gorfodol 2004 (Llywodraeth DU 2004), mae dyletswydd ar bob Cyngor i gynhyrchu Adroddiad Monitro Blyneddol CDLI (AMB). Prif swyddogaeth y AMB yw ystyried a yw'r polisiâu a ddynodwyd yn y fframwaith monitro yn cael eu gweithredu. Er mwyn monitro perfformiad yn gyson, caiff y Cynllun ei ystyried yn erbyn set o dargedau a dangosyddion monitro. Mae'r pum AMBau diwethaf yn ystyried a yw'r Nodau Strategol yn cael eu cyflawni. Mae Nod Strategol 3 yn berthnasol yma, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod:

Ffigur 1: Polisi Monitro oddi fewn i AMBau CDLI

SO3. Hyrwyddo adfywiad drwy ddefnyddio tir llwyd priodol yn hytrach na safleoedd maes glas							
Dangosyddion craidd a lleol	Targedau polisi	Cyflawniadau Polisi					Lefel sbardun
Swm y datblygu a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol fel canran o'r holl ddatblygu a ganiatawyd.	Cynnal % o o leiaf 80% dros y cyfnod cynllunio	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	Llai na 80% ar gyfer 2 flynedd yn olynol.
		82%	94%	88%	92%	26%	
		Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Nid oedd y targed yn cael ei gyflawni ond doedd dim pryderon ynghylch gweithredu polisi /nod.	
Swm craidd y tir maes glas a gollwyd o ganlyniad i ddatblygu amhriodol ar safleoedd heb eu dyrannu yn y CDLI.	Dim tir wedi ei golli	Heb golli unrhyw dir maes glas.	Heb golli unrhyw dir maes glas	Caniatawyd 1 datblygiad.	Heb golli unrhyw dir maes glas	Heb golli unrhyw dir maes glas.	1 neu 2 datblygiad wedi eu caniatáu ar gyfer 2 flynedd yn olynol neu 3 neu fwy o ddatblygiadau yn cael eu caniatáu mewn 1 flwyddyn.
		Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Nid oedd y targed yn cael ei gyflawni ond doedd dim pryderon ynghylch gweithredu polisi /nod.	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	Targedau / nodau yn cael eu cyflawni	

- Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012, cafodd yr arwynebedd o 0.98 ha ei ganiatáu ar dir heb ei ddatblygu'n flaenorol sy'n gyfartal â 18% o gyfanswm yr ardal ddatblygu a ganiatawyd. Barnwyd bod 100% o hyn yn briodol, fel na chafodd unrhyw dir maes glas ei golli, yn ystod y flwyddyn honno, i ddatblygiad amhriodol;
- Rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013, - cafodd yr arwynebedd o 0.35 ha ei ganiatáu ar dir heb ei ddatblygu'n flaenorol sy'n gyfartal â 6% o bob un caniatad . Barnwyd bod 100% o hyn yn amhriodol, fel na chafodd unrhyw dir maes glas ei golli, yn ystod y flwyddyn, i ddatblygiad amhriodol;
- Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, cafodd yr arwynebedd o 0.24 ha ei ganiatáu ar dir heb ei ddatblygu'n flaenorol sy'n gyfartal â 12% o bob un caniatad . Roedd un datblygiad a gafodd ei ganiatáu wedi ei leoli y tu allan i gyfyngiadau anheddiad ac oddi fewn i letem las ac felly barnwyd ei fod yn amhriodol.

Er bod caniatâd wedi ei roi yn sgil y safle'n manteisio ar ganiatâd amlinellol blaenorol, parhaodd i gael ei gofnodi fel tir maes glas a gollwyd. Felly argymhellodd yr AMB bod cyfyngiad anheddiad a pholisïau lletem las i'w monitro'n ofalus yn y dyfodol;

- Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, cafodd yr arwynebedd o , 1.51 ha ei ganiatáu ar dir heb ei ddatblygu'n flaenorol sy'n gyfartal â 8% o bob un caniatad . Barnwyd bod 100% o'r rhain yn amhriodol, fel na chafodd unrhyw dir maes glas ei golli yn ystod y flwyddyn honno i ddatblygiad amhriodol a
- Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, cafodd yr arwynebedd o 19.33 ha ei ganiatáu ar dir heb ei ddatblygu'n flaenorol sy'n gyfartal â 74% o bob un caniatad . Roedd cyfran fawr o hwn, sef 15 ha, ar gyfer fferm solar, ac ynghyd â'r caniatadau dros ben, barnwyd eu bod oll yn ddatblygiad priodol 100%. Yn yr achos hwn ni chafodd unrhyw dir maes glas ei golli yn ystod y flwyddyn honno i ddatblygiad amhriodol;

- Casglodd Adroddiad Adolygiad y CDLI mabwysiedig (Merthyr Tydfil County Borough Council, 2016) y dylai gweithdrefn adolygu llawn gael ei gyflawni wrth baratoi CDLI newydd. Barnwyd nad yw'r strategaeth ddatblygu, sy'n tanategu'r CDLI, yn cael ei chyflenwi ar hyn o bryd, a bod angen i'r Lefel twf a gofodol gael eu hailystyried er mwyn pennu'r strategaeth fwyaf priodol i gyflenwi twf hyd at 2031. Er, yn ôl yr Adroddiad Adolygiad, fod Polisi AS5 Lletem las yn *"gweithredu'n effeithiol – mân ddiwygiadau'n ofynnol"*, mae'r Polisi Lletem Las yn cael ei adolygu fel rhan o baratoad o'r cynllun datblygu lleol newydd, yn unol â PCC paragraff 4.8.1 sy'n datgan: "dylai polisïau lletemau glas gael eu hadolygu fel rhan o broses adolygu'r Cynllun datblygu."

6 Methodoleg Asesu Lletem Las

- 6.1 Nid yw PCC (Welsh Government, 2016) yn cynnwys unrhyw fethodoleg asesu benodol i ddynodi, diffinio neu adolygu dynodiadau lletemau glas. Felly rhaid i ACLI CBSMT asesu a yw dynodiadau'r CDLI mabwysiedig yn parhau'n berthnasol ac yn cydsynio â dibenion lletem las fel y'u diffiniwyd yn y PCC. Mae'r adran hon yn archwilio a yw dynodiadau o'r fath yn parhau i fod yn ofynnol ac, os felly, a yw'r ffiniau presennol yn briodol, dylai un lletem neu fwy gael eu gwaredu, neu lletem las ychwanegol ei dynodi.
- 6.2 Felly, caiff y cysyniad o letem las ei asesu yn ôl:
 - a ellir cyfiawnhau'r haenen ychwanegol o ddiogelu a, neu
 - dyma'r modd mwyaf priodol o atal cyfuniad.

- 6.3 Gwnaeth fframwaith Polisi CDLI CBSMT sydd ar glawr, ddilyn egwyddorion y strategaeth tir llwyd gan roi'r pwyslais ar ddatblygu tir a ddatblygwyd eisoes yn hytrach na thir maes glas, gyda dros 75% o'r tir a ddyrannwyd ar gyfer datblygu yn cael ei gategoreiddio fel tir llwyd. Cafodd blaenoriaethau clir o ran cyfyngiadau lleoliadol eu pennu ar nifer o ffactorau ffisegol yn dilyn y posibilrwydd o integreiddio datblygiad newydd, yn cynnwys tai a chyflogaeth gan fwyaf, a hynny'n llwyddiannus oddi fewn i'r aneddiadau presennol. Cafodd rhyngweithio rhwng cymunedau a'u hamgylcheddau eu hystyried hefyd.
- 6.4 Cafodd ffiniau aneddiad yn ôl diffiniad llym (cyfyngiadau) eu gosod hefyd. Cafodd *Polisi BW4: Ffiniau cyfyngiadau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol ei gynnwys er mwyn diffinio'r ardaloedd ble y ceir y dybiaeth fod ffafriaeth datblygiad oddi fewn iddynt, yn amodol ar gydweddiad â pholisïau perthnasol eraill ac ystyriaethau cynllunio materol. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, caiff cynigion eu hystyried fel 'datblygiad cefn gwlad' ble mae'r dybiaeth yn erbyn datblygiad oni bai fod y datblygiad:*
- yn gysylltiedig â mentrau gwledig neu ennill a gweithio mineralau;
 - ar gyfer ail-ddefnyddio, mabwysiadu, neu adnewyddu adeiladau ac anheddau gwledig;
 - yn cefnogi ehangu busnes presennol yng nghefn gwlad;
 - ar gyfer twristiaeth, hamdden neu gyfleusterau hamdden ble mae'r angen am leoliad cefn gwlad yn cael ei gyfiawnhau'n llwyr;
 - ar gyfer darparu cyfleustodau cyhoeddus, cyfleusterau seilwaith neu reoli gwastraff na ellir eu lleoli unrhyw le arall yn rhesymol;
 - ar gyfer adennill neu drin tir ansefydlog neu halogedig neu
 - bod y datblygiad ar gyfer ynni adnewyddadwy.
- 6.5 Tra bo Polisi cyffredinol i ddiogelu cefn gwlad yn gallu, ymhlith pethau eraill, ddiogelu yn erbyn cyfuniad, dim ond os oes digon o amrywiaeth o dir ar gael ar gyfer datblygiad y gellir cyflawni hyn. Os nad oes, yna mae'n bosibl y bydd ardaloedd penodol yn dyfod i fod yn fregus o ran pwysau datblygiad. Gallai hyn gynnwys tir o gwmpas aneddiadau presennol ble mae gwasanaethau a chyfleusterau'n bodoli eisoes. Mewn ardaloedd a gaiff eu hystyried i fod yn fwy bregus nac eraill, er enghraifft, ble mae'r gwagle rhwng aneddiadau'n fach neu ble y caiff ardaloedd penodol eu barnu i fod o dan bwysau ar gyfer datblygiad, fe'u hystyriwyd yn angenrheidiol i gynnwys yr haen ychwanegol o ddiogelu a sefydlwyd o dan Bolisi AS5: Lletem las.
- 6.6 Cafodd pob lletem gyfredol ei hasesu yn erbyn sut y mae wedi llwyddo yn erbyn nodau'r Polisi, fel y dangosir yn Ffigur 2, ac /neu a gafodd polisïau eraill eu defnyddio i ddiwallu'r un dibenion.

Ffigur 2: Nodau Polisi Lletem Las

Prif Swyddogaethau Polisi Lletem las PCC	Prif Swyddogaethau Polisi Lletem Las CDLI
- Atal cyfuniad trefol o aneddiadau gydag aneddiadau eraill . - Rheoli ffurf drefol drwy ehangu rheoledig o ardaloedd trefol. - Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwlad rhag llechfeddiant. - Diogelu lleoliad ardaloedd trefol. - Cynorthwyo ag adfywio trefol drwy annog ailgylchu tir diffaith a thir trefol arall.	- Atal cyfuniad rhwng aneddiadau . - Atal cyfuniad rhwng cymunedau oddi fewn i anheddiad Merthyr. - Cynnal hunaniaeth amlwg cymunedau ar wahân . - Cynnal gwagle agored gwerthfawr rhwng aneddiadau - Cydweddu'r swyddogaeth a ddarperir gan ffiniau aneddiadau
Swyddogaethau Eilaidd dynodiad Lletem las PCC	Papur Cefndir CDLI Swyddogaethau Eilaidd Lletem las
- Darparu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad agored - Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden awyr agored. - Cynnal diddordebau tirlun/ bywyd gwyllt - Cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a dibenion perthnasol. - Gwella tir diffaith. - Darparu dalfa garbon a helpu i eirioli effeithiau ynysoedd gwres trefol.	- Cynnal gwahanolrwydd ac integriti cymunedau. - Cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored . - Diogelu lleoliad tirlun aneddiadau . - Cynnal integriti'r tirlun. - Datblygiad uniongyrchol tuag at dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac felly cynorthwyo gyda'r adfywio. - Helpu i ddiogelu buddion bioamrywiaeth .

7 Asesiad Polisi Lletem Las

7.1 Heolgerrig / Twyncarmel

7.1.1. Lluniwyd y lletem las hon (gweler Cynllun 3) i atal y cyfuniad , diogelu'r tirlun a chynnal gwahanolrwydd aneddiadau Twyncarmel a Heolgerrig. Lleolir Twyncarmel tua'r gogledd a Heolgerrig tua'r de o Brif Ardal Twf y strategaeth ddatblygu. Yn ystod y cyfnod mabwysiadu roedd y cymunedau wedi profi pwysau datblygu sylweddol oddi wrth gynigion tai, manwerthu a hamdden.

- 7.1.2 Mae prif nodweddion yr ardaloedd yn tarddu o'u cysylltiadau hanesyddol â Gwaith Haearn Cyfarthfa drwy ei gysylltiad â gwaith glo a haearn ynghyd â seilwaith trafnidiaeth. Mae Heneb Restredig sef Tramffordd Mynydd Aberdâr - Cyfarthfa wedi ei leoli oddi fewn i'r lletem las. Rhagwelwyd ymhellach y byddai'r dynodiad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored; ac yn helpu i ddiogelu buddion bioamrywiaeth yn cynnwys Dwyrain Winchfawr a Clwydyfagwyr, Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Cynllun 3: Lletem Las Heolgerrig / Twyncarmel



7.1.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun mae nifer o geisiadau ar gyfer datblygu wedi eu cyflwyno oddi fewn i'r llettem las, fel a ganlyn:

Rhif Cais	Datblygiad arfaethedig	Penderfyniad	Rheswm dros y Penderfyniad/ Polisi CDLI /Polisiâu a Ddyfynnwyd.
P/12/0166	Cymeradwyaeth flaenorol ar gyfer codi adeilad amaethyddol.	Caniatâd blaenorol ddim yn ofynnol	AMH
P/12/0238	Cymeradwyaeth flaenorol ar gyfer dymchwel adeilad amaethyddol	Caniatâd blaenorol ddim yn ofynnol	AMH
P/12/0330	Annedd dau lawr, ar wahân	Gwrthodwyd	Drwy rinwedd ei leoliad y tu allan i ffin yr aneddiad (Polisi BW4), datblygiad na ellir ei gyfiawnhau yng nghefn gwlad agored nad yw'n sympathetig i amgylchedd y safle (Polisi BW5). Fel llettem las dynodedig byddai'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad y tirlun presennol a'r amwynderau gweledol ehangach (Polisi AS5).
P/13/0080	Ailgyflwyno Caniatâd Cynllunio a wrthodwyd	Gwrthodwyd	Drwy rinwedd ei leoliad y tu allan i ffin yr aneddiad (Polisi BW4), datblygiad na ellir ei gyfiawnhau yng nghefn gwlad agored nad yw'n sympathetig i amgylchedd y safle (Polisi BW5). Fel llettem las dynodedig byddai'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad y tirlun presennol a'r amwynderau gweledol ehangach (Polisi AS5).
P/13/0205	Codi garej ac annedd	Gwrthodwyd	Drwy rinwedd ei leoliad y tu allan i ffin yr aneddiad (Polisi BW4), datblygiad na ellir ei gyfiawnhau yng nghefn gwlad agored nad yw'n sympathetig i amgylchedd y safle (Polisi BW5). Fel llettem las dynodedig byddai'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad y tirlun presennol a'r amwynderau gweledol ehangach (Polisi AS5).
P/14/0192	10 uned tai fforddiadwy	Cymeradwywyd	Roedd yn cydsynio â Pholisi TB13: Safleoedd eithrio ar gyfer tai fforddiadwy (cynigiwyd ar dir a ddatblygwyd ar gyfer tai eisoes (chwalwyd yn 1986) felly er ei fod wedi ei leoli ar ymyl y llettem las Gorbwysodd Polisi TB13 yn erbyn Polisi AS5 .
P/15/0057	Diwygiad ansylweddol	Cymeradwywyd	Yn cydsynio â Pholisi BW7 , yn ansylweddol o ran natur ac ni fyddai'n effeithio'n groes ar y gwreiddiol
P/15/0253	Codi annedd ar wahân gyda garej	Cymeradwywyd	Er gwaetha polisiâu ffiniau aneddiad BW4 a Llettem las AS5 manteisiodd y safle o'r caniatâd cynllunio amlinellol ar glawr
P/16/0288 P/17/0013	Diwygiad ansylweddol Rhyddhau amod	I'w gadarnhau	AMH
P/17/0036	Tŷ a garej	I'w gadarnhau	AMH

7.1.4 Ystyriwyd fod y llettem las hon wedi bod yn llwyddiannus o ran cydweddu ffin yr anheddiad Polisi BW4: *Ffiniau/cyfyngiadau lleoliadol Anheddiad. Fodd bynnag, nid yw wedi cael ei ddefnyddio i weithredu nodau'r Polisi, oedd â'i brif ddiben o atal cyfuniad. Mae Polisiâu CDLI eraill yma yn cynnwys polisiâu BW5: Amgylchedd Naturiol a TB13: Safleoedd eithrio ar gyfer tai fforddiadwy . Y casgliad yw y byddai'r polisiâu hyn, wedi arwain at yr un deiliant **heb** Bolisi Llettem Las.*

7.2 Abercannaid / Pentrebach / Troedyrhiw

- 7.2.1 Lluniwyd y lletem las hon (gweler Cynllun 4) i atal cyfuniad, diogelu'r tirlun a chynnal gwahanolrwydd ac integriti aneddiadau a chymunedau Abercannaid, Pentrebach a Throedyrhiw. Lleolir Abercannaid a Phentrebach yn y Brif Ardal Twf a Throedyrhiw mewn Ardaloedd Twf Eraill o'r strategaeth ddatblygu. Yn ystod y cyfnod mabwysiadu roedden nhw'n profi pwysau datblygiad, yn enwedig, ar gyfer tai.
- 7.2.2 Mae prif nodweddion Abercannaid yn deillio o'i datblygiad gwreiddiol yn ystod yn 1830au a'r 40au yn dilyn agor pyllau'r Graig a Gethin a'r ymchwydd cysylltiedig o ran cynhyrchu a gafwyd yng ngwaith haearn Plymouth. Yn yr un modd, caiff Pentrebach ei gysylltu'n gryf â gwaith Plymouth, gwaith Haearn Pentrebach a'r Dyffryn a phyllau amgylchynol Cwmni Plymouth (Graig a Dyffryn). Saif y ddwy anheddiad oddi fewn i Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Merthyr Tudful. Mae Troedyrhiw yn enghraifft o anheddiad ddiwydiannol ddiweddarach sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo a'i drawsgludo. Rhagwelwyd ymhellach y byddai'r dynodiad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, ac yn helpu i ddiogelu buddion bioamrywiaeth yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur Afon Taf a diddordebau hanesyddol fel Pont Traffordd Gethin.

Cynllun 4: Lletem Las Abercannaid / Pentrebach / Troedyrhiw



7.2.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun mae nifer o geisiadau ar gyfer datblygu oddi fewn i'r llettem las wedi eu cyflwyno, fel a ganlyn:

Rhif Cais	Datblygiad arfaethedig	Penderfyniad	Rheswm dros y Penderfyniad - Polisi CDLI /Polisiâu a Ddyfynnwyd.
P/12/0060	Creu llwybr troed – a mynediad stepiau cysylltiedig at yr afon.	Cymeradwywyd	Yn unol â Pholisi BW11 : Ceisiadau Trafnidiaeth, seiclo a cherdded i geisio gwella mynediad i gefn gwlad.
P/12/0303	Tocio a chael gwared ar goed (oddi fewn i bellter cwmpo llinellau pŵer uwchben 33kv).	TPO Nid yw caniatâd yn ofynnol.	Gwaith yn angenrheidiol er budd diogelwch.
P/15/0130 P/15/0346, P/15/0368 & P/16/0047	Creu bwnd fel sgrin i safle profi cerbydau. Rhyddhau amodau.	Cymeradwywyd	Barnwyd bod y datblygiad am arwain at lechfeddiant bach yn unig hyd at ymyl y llettem las (AS5), gan ei bod wedi ei lleoli ar barc diwydiannol cyfagos mewn Safle Cyflogaeth a Ddiogelir yn amodol ar Bolisi AS24 . Cafodd diogelu amgylcheddol ei sicrhau drwy Bolisiâu BW5 a BW7 .

7.2.4 Fel y gwelir o'r tabl uchod, nid oes unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol oddi fewn i'r llettem las wedi cael eu cyflwyno ers mabwysiadu'r Cynllun. Gan gadw hyn mewn cof, caiff ei ystyried nad yw'r ardal yn fregus o ran pwysau datblygiad ac felly **nid oes angen** yr haenen ychwanegol o ddiogelu y mae dynodi llettem las yn ei roi.

7.3 Troedyrhiw / Aber-fan

7.3.1 Lluniwyd y llettem las hon (gweler Cynllun 5) i atal y cyfuniad, cadw'r tirlun, ac atal lleihad o ran gwahanolrwydd cymunedau unigol Troedyrhiw ac Aber-fan. Mae Troedyrhiw wedi ei leoli i'r gogledd ac Aber-fan tua'r de yn Ardaloedd Twf Eraill y strategaeth datblygiad. Yn ystod y cyfnod mabwysiadu'r llettem las oedd yr unig ddarn o dir ar lawr y dyffryn a oedd yn gwahanu Troedyrhiw ac Aber-fan.

7.3.2 Caiff ffurf drefol aneddiadau llawr y dyffryn hwn eu nodweddu gan ddatblygiad rhuban sy'n bennaf gysylltiedig ag echdynnu glo a thrafnidiaeth, gan ffurfio toriad lled-wledig pwysig iawn rhyngddynt. Gwerthfawrogwyd ymhellach, y byddai'r dynodiad yn cyfeirio datblygiad i safle cyn waith glo Ynysowen gan felly gynorthwyo yn ei adfywiad. Barnwyd bod manteision pellach y dynodiad yn cynnwys agor cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored a helpu i ddiogelu buddion bioamrywiaeth yn cynnwys Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur Aberbargoed Taf.

Cynllun 5: Lletem Las Troedyrhiw / Lletem Las Aber-fan



7.3.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun, cafodd y ceisiadau canlynol eu cyflwyno ar gyfer datblygiad yn y lletem las:

Rhif Cais	Datblygiad arfaethedig	Pend erfyniad	Rheswm Polisi CDLI /Polisiâu a Ddyfynnwyd.
P/12/0060	Creu llwybr troed – a mynediad stepiau cysylltiedig at yr afon.	Cymeradwyd	Yn unol â Pholisi BW11 : Ceisiadau Trafnidiaeth, seiclo a cherdded i geisio gwella mynediad i gefn gwlad.
P/12/0303	Tocio a gwaredu coed (oddi fewn i bellter cwmpo llinellau pŵer uwchben 33kv).	TPO Nid yw caniatâd yn ofynnol.	Angen gwaith at ddibenion diogelwch.
P/15/0184	Cynllun diwygiedig (P/09/0287) ar gyfer adeiladu priffordd newydd yn cynnwys cylchfan, pompren, llwybrau cerdded, llwybrau seiclo, goleuo, byndiau pridd a chael gwared ar Glymog Japan.	Cymeradwyd	Sefydlwyd egwyddor drwy'r caniatâd blaenorol P/09/0287 a rhan fwyaf o'r cynllun oddi fewn i ffin yr aneddiad (Polisi BW4). Cafodd amddiffyn amgylcheddol ei ddiogelu yn sgil polisiâu BW5 a BW7 .

7.3.4 Fel y gwelir o'r tabl uchod, nid oes unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol wedi cael eu cyflwyno oddi fewn i'r llettem las ers mabwysiadu'r Cynllun. Gan gadw hyn mewn cof, caiff ei ystyried nad yw'r ardal yn fregus o ran pwysau datblygiad ac felly **nid oes angen** yr haenen ychwanegol o ddiogelu y mae dynodiad llettem las yn ei roi.

7.4 Trelewis/Nelson

7.4.1 Lluniwyd y llettem las hon (gweler Cynllun 6) i atal y cyfuniad, diogelu'r tirlun ac integriti'r cymunedau oddi fewn i aneddiadau Trelewis Nelson. Mae Trelewis wedi ei leoli i'r dwyrain o Adran Twf Eilaidd y strategaeth ddatblygu a Nelson wedi ei leoli dros ffin y Fwrdeistref Sirol yn ardal CBSC. Yn ystod y cyfnod mabwysiadu roedd ardal Trelewis wedi profi lefel gymharol uchel o ddatblygu tai dros y ddau ddegawd blaenorol.

Cynllun 6: Llettem Las Trelewis/Nelson



7.4.2 Coridor afon yw'r llettem las sy'n cynnwys llain gul o dir ar ochr dyffryn coediog amlwg sydd â rhinwedd uchel o ran ei golygfeydd. Ar adeg dynodi, roedd yn ffurfio'r union ardal a oedd ar ôl oedd yn rhydd o ganiatâd datblygu preswyl cyfredol. Yn ychwanegol, roedd buddion y dynodiad yn cynnwys cynnal integriti y tirlun hynod a phrin hwn a helpu i ddiogelu diddordebau bioamrywiaeth fel Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur Nant Caeach.

7.4.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun, cafodd dau gynnig eu cymeradwyo oddi fewn i'r llettem las, fel a ganlyn:

Rhif Cais	Datblygiad arfaethedig	Penderfyniad	Rheswm Polisi CDLI /Polisiâu a Ddyfynnwyd.
P/11/0124 P/11/0033	Gosod systemau draenio saethben a thraciau caled i alluogi caeau sy'n cadw da byw.	Cymeradwyd -	Byddai unrhyw waith yn cael ei orchuddio â phridd glân ac felly ei ystyried i fod yn anaddas ar gyfer datblygiad cefn gwlad. (Polisi BW4).
P/12/0163	Codi estyniad un llawr	Cymeradwyd	Cydsynio â Pholisi BW4 gan ei fod yn addasiad o adeilad gwledig sy'n bodoli eisoes a ddefnyddiwyd fel siop fferm ac ni fyddai'n niweidio natur agored y tir (Polisi AS5).

7.4.4 Fel y gwelir o'r tabl uchod, ni chafodd unrhyw geisiadau am ddatblygiad amhriodol eu cyflwyno oddi fewn i'r llettem las ers mabwysiadu'r Cynllun. Gan gadw hyn mewn cof, caiff ei ystyried nad yw'r ardal yn agored i niwed o ran pwysau datblygu ac felly **nid oes angen** yr haenen ychwanegol o warchodaeth a roddir gan ddynodi llettem las.

8 Casgliad

8.1 **Ffigur 3: Llwyddiant wrth ddefnyddio Polisi Llettem Las CDLI yn erbyn polisiâu CDLI eraill**

Prif Swyddogaethau Polisi Llettem las CDLI	Defnydd o Bolisiâu CDLI eraill i gyflawni'r un canlyniad
• Atal cyfuniad rhwng aneddiadau .	• BW4: Ffiniau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol
• Atal cyfuniad rhwng communities within the main settlement of Merthyr.	• BW4: Ffiniau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol
• Cynnal hunaniaeth amlwg cymunedau ar wahân .	• BW4: Ffiniau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol
• Cynnal gwagle agored gwerthfawr rhwng aneddiadau	• BW5: Treftadaeth naturiol
• Cydweddu'r swyddogaeth a	• AMH

ddarperir gan ffiniau aneddiadau .	
Papur Cefndir Lletem Las CDLI – Swyddogaeth eilaidd	Defnydd o Bolisiâu CDLI eraill i gyflawni'r un canlyniad
Cynnal gwahanolrwydd ac integriti cymunedau.	BW4: Ffiniau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol
Diogelu lleoliad tirlun aneddiadau.	- BW4: Ffiniau aneddiad/ cyfyngiadau lleoliadol - BW5: Treftadaeth naturiol
Cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.	BW11: cynigion trafndiaeth , seiclo ac i gerddwyr
Cynnal integriti'r tirlun.	BW5: Treftadaeth naturiol
Helpu i ddiogelu buddion bioamrywiaeth.	BW5: Treftadaeth naturiol
Datblygiad uniongyrchol tuag at dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac felly cynorthwyo gyda'r adfywio.	AMH

- Daethpwyd i'r casgliad nad yw Polisi Lletem Las wedi cael ei ddefnyddio i'w nod sylfaenol sef atal cyfuniad. Yn ychwanegol, cafodd nodau eraill y Polisi fel y'u dangosir yn Ffigur 3 eu cyflawni'n llwyddiannus drwy weithredu'r polisiâu eraill yn y CDLI yn cynnwys BW4: Ffiniau aneddiad /cyfyngiadau lleoliadol, BW5: *Treftadaeth naturiol*, BW7 Dylunio cynaliadwy a gwneud lle, BW8: *Datblygiad yn yr amgylchedd dŵr*, BW11 *Cynigion Trafnidiaeth, seiclo ac i gerddwyr* a TB13: *Safleoedd eithrio ar gyfer tai fforddiadwy* .

Ffigur 4: Mecanweithiau amgen i gyflawni nodau Polisi Lletem Las PCC

PCC – Nodau Polisi Lletem Las	Mecanweithiau posibl eraill Polisi CDLI a allai gyflawni'r un nod
Atal cyfuniad trefol o aneddiadau gydag aneddiadau eraill .	- Diffinio ffiniau aneddiad gwydn o gwmpas aneddiadau /cymunedau sy'n agored i niwed; - Sicrhau bod digon o dir ar gyfer datblygu a - Diogelu gwagle gwyrdd presennol s.
Rheoli ffurf drefol drwy ehangu rheoledig o ardaloedd trefol.	- Diffinio cyfyngiadau aneddiadau gwydn a - Diogelu gwagle gwyrdd presennol o gwmpas aneddiadau a chymunedau
Cynorthwyo i ddiogelu cefn gwlad rhag llechfeddiant.	- Diffinio ffiniau aneddiad gwydn a - Tybiaethau yn erbyn datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad.
Diogelu lleoliad ardaloedd trefol.	- Diffinio ffiniau aneddiad gwydn; - Dynodi digon o dir ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau; - Dynodi ardaloedd diogelu tirlun e.e. Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATAau) a - Diogelu gwagle gwyrdd presennol s.
Cynorthwyo ag adfywio trefol drwy annog ailgylchu tir diffaith a thir trefol arall.	- Ffurfio strategaeth datblygu tir llwyd / tir a ddatblygwyd yn flaenorol a - Dynodi digon o dir ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau ar safle tir llwyd.

Nodau arfaethedig dynodiadau Lletem Las PCC	Mecanweithiau posibl eraill Polisi CDLI a allai gyflawni'r un canlyniad
Darparu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad agored	- Cynnwys polisiâu i ddiogelu a galluogi creu teithiau hamdden ychwanegol; - Cynnwys polisiâu sy'n galluogi gwella neu greu twristiaeth briodol a chyfleusterau hamdden yng nghefn gwlad.
Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden awyr agored	Diogelu gwagle gwyrdd presennol ac oddi fewn i'r aneddiadau .
Cynnal diddordebau tirlun/ bywyd gwyllt	- Cynnwys polisiâu i ddiogelu a chysylltu asedau cyfredol bioamrywiaeth; - Mesurau ad-dalu a neu eirioli gofynnol ar gyfer colli tirlun a neu fioamrywiaeth; - Adolygu a dynodi dynodiadau lleol ychwanegol e.e. Safleoedd Cadwraeth Naturiol ac ATAAu.
Cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a dibenion perthnasol	- Cynnwys polisiâu priodol i ddiogelu amaethyddiaeth / coedwigaeth / coetir / ardaloedd tir cyffredin; - Ystyried dynodi safleoedd potensial ar gyfer tyfu bwyd.
Gwella tir diffaith	Consider allocating land reclamation sites.
Darparu dalfa garbon a helpu i eirioli effeithiau ynysoedd gwres trefol	Cynnwys polisiâu gwyd penodol am newid yn yr hinsawdd.

9 Argymhelliad

- 9.1 Ar yr amod bod y mecanwaith a amlinellir yn Ffigur 4, yn cynnwys ffin aneddiad cryf yn benodol, yn cael ei gynnwys oddi fewn i'r CDLI newydd, **ni** ddylai Polisi Lletem Las gael ei symud ymlaen i'r CDLI newydd, gan **na** fydd hynny'n angenrheidiol.

GWAITH A DDYFYNNWYD

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. (2013). *Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2007-2022*. Aberhonddu: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2008). *Dynodi a Dyrannu Lletem yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili*. Caerffili: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2010). *Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021*. Caerffili: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (2009). *Papur Cefndir: Lletem lass*. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (2011). *Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021*. Merthyr Tudful: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (2016). *Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006 - 2021- Review Report*. Merthyr Tydfil: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (2009). *Papur Cefndir: Lletem lass*. Merthyr Tudful: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful .
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (2011). *Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021*. Merthyr Tudful: Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. (2011). *Cynllun Datblygu Lleol hyd at 2021*. Pontypridd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf .
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2011). *Cynllun Datblygu Lleol hyd at 2021*. Pontypridd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf .
- UK Government. (2004). *Planning and Compulsory Purchase Act 2004*. London: Crown.
- Llywodraeth Cymru. (2008). *Pobl, Lleoedd, Dyfodol -Cynllun Gofodol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2016). *Polisi Cynllunio Cymru Caerdydd*: OGL.